**Asesiad Traweffaith Coedyddiaeth – Crynodeb Gweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio maint ac effaith y datblygiad arfaethedig ar y safle ar goed unigol a grwpiau o goed o fewn y safle ac yn yr ardal gyfagos.

Cafodd coed o fewn yr ardal eu harolygu; gan ddefnyddio methodoleg oedd yn cael ei harwain gan y Safon Brydeinig 5837:2012 'Coed mewn perthynas â chynllunio, dymchwel ac adeiladu - Argymhellion' ("BS5837").

Mae'r adroddiad hwn a'i atodiadau yn dilyn yn fanwl y strategaeth ar gyfer cymeradwyo coedyddiaeth a fwriadwyd i ddarparu tystiolaeth i'r awdurdodau cynllunio lleol bod coed wedi eu hystyried yn briodol drwy gydol y broses ddatblygu.

O ganlyniad, cafodd yr adroddiad hwn ei gynhyrchu, gan gydbwyso cynllun y datblygiad arfaethedig gydag anghenion coed sy'n cystadlu yn ei erbyn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys holl elfennau angenrheidiol asesiad goblygiadau coedyddiaeth, datganiad dull a chynlluniau cefnogi. Mae'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i rai o'r coed gael eu gwaredu o ochr fewnol y safle ond bydd yn cadw'r holl goed ar hyd ffiniau'r safle, er mwyn darparu cysgod ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Mae dyluniad y cynllun ar gyfer y cais wedi cymryd i ystyriaeth, ac wedi osgoi, ardaloedd y gorchymyn gwarchod coed Rhif 3 (TPO) sydd wedi'u lleoli o fewn ffiniau'r safle; mae'r rhain wedi'u huwcholeuo ar y cynlluniau AIA a TPP.

Bydd cynllun plannu coed lliniarol yn rhan o'r cynnig tirlunio ar gyfer y datblygiad.

Daeth yr adroddiad hwn i’r casgliad na fydd ansawdd a hirhoedledd cyffredinol cyfraniad y cyfleuster y darperir ar ei gyfer yn cael ei effeithio arno'n andwyol o ganlyniad i'r ffaith fod yr awdurdod cynllunio lleol wedi cytuno i'r datblygiad arfaethedig. Ystyrir y bydd modd delio gydag unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn yr adroddiad hwn, neu y tu hwnt i'w gwmpas, gydag amodau cynllunio.